Ysgol Pentreuchaf

108. Polisi Llau Pen

Nod

Gweithredu'r canllawiau isod i geisio, hyd eithaf ein gallu, reoli'r broblem o lau pen.

Canllawiau

1. Bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth ffeithiol am lau pen i'r rhieni yn rheolaidd.
2. Pe canfyddir fod gan ddisgybl yn yr ysgol leuen fyw sy'n symud, hysbysir rhiant y plentyn, yn gyfrinachol, fel y gallant drin yr haint. Hysbysir rhieni eraill plant y dosbarth(heb enwi), drwy neges testun neu lythyr ym magiau'r disgyblion, fod llau yn bodoli yn y dosbarth.
3. Pan ganfyddi'r fod gan ddisgybl lau pen, rhaid i'r rhiant ddod i nôl y plentyn o'r ysgol. Caiff ddychwelyd y diwrnod canlynol os ydyw wedi derbyn y driniaeth angenrheidiol.
4. Cynghorir y rhiant i fynd â'r plentyn at y meddyg teulu neu i'r fferyllfa leol am driniaeth.
5. Os yw'r broblem yn parhau'n gyffredinol ar ôl 4 wythnos, bydd y Pennaeth yn cysylltu gyda'r nyrs ysgol am gyngor pellach.
6. Os yw'r broblem yn parhau gyda'r un plant yn yr ysgol, bydd y Pennaeth yn gofyn i'r nyrs ysgol asesu'r sefyllfa a gweithredu yn ôl ei doethineb.

Casgliad

Mae llau pen yn medru bod yn broblem ar adegau, ac mae'n rhaid i ni a'r rhieni gydweithio i geisio dileu'r haint.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Arwyddwyd:_____, Pennaeth

Dyddiad:_____